| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Bwrdd Pensiwn |
| **Dyddiad:** | 23/04/2024 |
| **Teitl:** | **COD YMARFER CYFFREDINOL Y RHEOLEIDDIWR PENSIYNAU** |
| **Awdur:** | Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau |
| **Pwrpas:** | Er gwybodaeth |

## 1. Cyflwyniad

Daeth cod ymarfer cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau i rym ar 28 Mawrth 2024. Mae'r cod yn cynnwys gofynion llywodraethu newydd ac yn nodi disgwyliadau'r Rheoleiddiwr o sut y dylid rheoli cynlluniau pensiwn galwedigaethol a'r polisïau, arferion a gweithdrefnau a ddylai fod yn eu lle. Dylai pob cynllun gynnal dadansoddiad o fylchau i asesu pa gamau sydd angen eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod sengl.

## 2. Manylion allweddol

- Mae'r Cod Ymarfer Cyffredinol (y "Cod") yn cydgrynhoi ac yn moderneiddio 10 Cod blaenorol yn un Cod ac yn nodi safonau llywodraethu ar gyfer cynlluniau pensiwn.

- Mae'r Cod yn berthnasol i gyrff llywodraethu cynlluniau galwedigaethol (Buddiannau Diffiniedig a Chyfraniadau Diffiniedig), cynlluniau pensiwn personol a chynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus.

- Ar gyfer Cynlluniau Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus yn benodol, mae'r Cod yn disodli Cod Ymarfer 14 (Llywodraethu a Gweinyddu Cynlluniau Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus).

- Mae'r Cod ar gael ar-lein ac mae'r fersiwn papur yn rhedeg i 171 o dudalennau sy'n cynnwys 51 modiwl (ac nid yw pob modiwl yn berthnasol i bob cynllun).

- Mae pum adran yn y Cod:
  - Y corff llywodraethu,
  - Ariannu a Buddsoddi,
  - Gweinyddiaeth,
  - Cyfathrebu
  - Datgelu ac Adrodd i'r Rheoleiddiwr.

## 3. Beth sy'n newydd i gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus?

### 3.1 Corff llywodraethu

Mae'r Cod yn rhoi mwy o eglurder ynghylch diffiniad y corff llywodraethu ar gyfer Cynlluniau Pensiwn Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys y CPLlL. Cadarnheir mai hwn yw rheolwr y cynllun. Mae'n amlinellu y bydd angen i bob Cynllun Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus benderfynu pwy sy'n cyflawni rôl rheolwr cynllun yn unol â'u rheoliadau a'u trefniadau lleol. Mae'r Cod yn cydnabod bod angen i lywodraethu Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried gwahanol gyfrifoldebau rheolwr y cynllun, y bwrdd pensiwn a, lle bo'n briodol, y pwyllgor pensiynau.

### 3.2 Arfer da

Yn y Cod Cyffredinol newydd mae nifer o feysydd o arfer da sy'n eistedd ochr yn ochr â modiwlau craidd (a amlygir gan * yn y rhestr isod). Er nad yw cydymffurfio â'r modiwlau arfer da yn ofyniad cyfreithiol, awgrymir bod pob awdurdod gweinyddol a Chynlluniau Pensiwn Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried holl feysydd y Cod newydd.

### 3.3 Modiwlau newydd

Mae nifer o fodiwlau newydd yn y Cod o’u cymharu â Chod Ymarfer 14.

Y rhain yw:

**Adran y corff llywodraethu**
- Cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau
- Polisi tâl a ffioedd*
- Rheoli ymgynghorwyr a darparwyr gwasanaeth*
- Cynllunio parhad y cynllun*
- Asesiad risg*

**Adran Cyllid a Buddsoddi**
- Llywodraethu buddsoddiadau*
- Monitro buddsoddiad*
- Newid hinsawdd*

**Gweinyddiaeth**
- Cynllunio a chynnal gweinyddiaeth
- Trafodion ariannol
- Trosglwyddiadau allan
- Cadw cofnodion
- Monitro a Gwella Data
- Cynnal a chadw systemau TG
- Reolaethau seiber*

**Cyfathrebu a datgelu**
- Egwyddorion cyffredinol ar gyfer cyfathrebu ag aelodau
- Sgamiau

### 3.4 Llywodraethu

Mae’r Rheoleiddiwr yn nodi y dylai'r corff llywodraethu dreulio cyfnod priodol o amser yn rhedeg ei gynllun ac y dylai gyfarfod o leiaf bob chwarter. Mae'r Cod yn amlinellu'r eitemau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cofnodion cyfarfodydd ysgrifenedig. Bydd angen i Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus ystyried gofynion modiwl penodi a rôl y cadeirydd, yn ogystal ag agweddau perthnasol ar y modiwl polisi tâl a ffioedd arfer da newydd.

### 3.5 Rheoli ymgynghorwyr a darparwyr gwasanaeth

Mae’r Rheoleiddiwr yn disgwyl i gynlluniau weithredu system lywodraethu effeithiol ac mae'r modiwl hwn yn amlinellu'r rheolaethau disgwyliedig ar gyfer dethol, penodi a rheoli

cynghorwyr a darparwyr gwasanaethau. Mae’n cadarnhau, pan fo’r corff llywodraethu’n penodi cynghorwyr a darparwyr gwasanaethau, mai ef sy’n cadw’r atebolrwydd terfynol ac y dylai allu dangos ei reolaeth o berthnasoedd masnachol.

### 3.6 Gweinyddiaeth

Mae’r Rheoleiddiwr wedi cyflwyno nifer o fodiwlau gweinyddu newydd, yn arbennig mewn perthynas â chynllunio a chynnal gweinyddiaeth, trin gwybodaeth a chynnal a chadw systemau TG.

### 3.7 Rheoli risg

Mae yna feysydd o arfer da yma o ran cynllunio parhad cynllun. Mae’r Rheoleiddiwr yn nodi nad oes gan reolwyr cynllun cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus rwymedigaethau penodol a nodir mewn deddfwriaeth pensiynau ond maent yn ystyried ei bod yn arfer da cynllunio parhad. Hefyd mae maes newydd yr Asesiad Risg wedi'i restru fel maes arfer da ar gyfer Cynlluniau Pensiwn Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd yr Asesiadau Risg yn nodi’r risgiau llywodraethu allweddol sy’n wynebu’r cynllun ac mae’r Rheoleiddiwr yn nodi y dylai’r corff llywodraethu ymgorffori’r canfyddiadau yn ei brosesau rheoli a gwneud penderfyniadau.

### 3.8 Systemau Llywodraethu

Mae’r gofyniad am systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol effeithiol yn berthnasol i bob cynllun, er bod y safonau llywodraethu sy’n ofynnol yn ôl y gyfraith yn dibynnu ar y math o gynllun. Mae'r Cod yn rhoi mwy o bwyslais ar bolisïau a gweithdrefnau sydd wedi’u dogfennu i ddangos bod y corff llywodraethu yn rheoli'r cynllun yn unol â'r gofynion. Mae'n ofynnol i reolwyr Cynlluniau Pensiwn Gwasanaethau Cyhoeddus sefydlu a gweithredu rheolaethau mewnol priodol yn unol â gofynion y gyfraith.

### 3.9 Rheolaethau Seiber

Mae seiber a rheoli risg seiber ar gyfer cynlluniau pensiwn yn faes sy’n esblygu’n barhaus. Yn ôl y disgwyl, mae’r Cod yn amlinellu y dylai cyrff llywodraethu gymryd camau i leihau’r risg o ddigwyddiadau, a rheoli unrhyw ddigwyddiadau sy’n codi yn briodol. Mae hwn wedi'i restru fel modiwl arfer da ond mae hefyd yn nodi'n glir y gofynion cyfreithiol ar gyfer holl Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n ymwneud â rheolaethau mewnol.

### 3.10 Buddsoddiad

Mae’r Cod yn cynnwys rhai modiwlau arfer da ar fuddsoddiadau ar gyfer Cronfeydd Pensiwn Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys llywodraethu buddsoddiadau, monitro buddsoddiadau a newid yn yr hinsawdd. Mae’r Rheoleiddiwr yn nodi nad oes gan reolwyr cynllun Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol yr un rhwymedigaethau mewn deddfwriaeth pensiynau, ond mae’n arfer da iddynt ymdrin â llywodraethu buddsoddiadau a monitro buddsoddiadau yn yr un modd.

## 4. Y camau nesaf

Mae gwaith wedi dechrau i ddehongli'r Cod yn ofalus ac asesu cydymffurfiaeth. Bydd yn allweddol llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r newidiadau sydd eu hangen, gan

gynnwys nodi unrhyw bolisïau neu weithdrefnau newydd neu newidiadau i bolisïau presennol a all fod yn ofynnol.

I helpu gyda'r gwaith hwn mae Hymans Robertson wedi datblygu model cydymffurfio newydd i helpu cronfeydd CPLlL i asesu cydymffurfiaeth yn erbyn y Cod Cyffredinol newydd. Bydd hyn yn cynhyrchu gwybodaeth awtomataidd ar gyfer adrodd parhaus i Bwyllgorau Pensiynau a Byrddau Pensiynau Lleol a bydd yn cefnogi cronfeydd i ddatblygu cynllun gweithredu yn erbyn meysydd sydd angen sylw pellach.

Bydd y gwaith hwn yn cymryd llawer o adnoddau ac amser. Adroddir ar gynnydd yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.